

Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc



Gwasanaethau Eirioli ar Gyfer Plant a Phobl Ifanc

Mawrth 2008

Gellir cael mwy o gopiau called o'r adroddiad hwn gan:

Linda Heard
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
E-bost: Linda.heard@wales.gsi.gov.uk

Ceir copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Pwyllgor:
<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-cyp-home.htm>

CYNNWYS	TUDALEN
Aelodaeth y Pwyllgor	
Rhagarweiniad y Cadeirydd	1
Rhagarweiniad a Chefndir	2
Y Fframwaith Deddfwriaethol	4
Themâu ac Argymhellion:	6
• Yr angen i gael gwasanaethau eirioli annibynnol	7
• Yr angen i gael eiriolwyr medrus	14
• Yr angen i wasanaethau eirioli fod yn hygyrch	16
• Yr angen i sicrhau parhad gwasanaeth	19
Atodiad 1 – Crynodeb o'r Argymhellion	21
Atodiad 2 – Cylch Gorchwyl y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gafwyd	23
Atodiad 3 – Diffiniad Comisiynydd Plant Cymru o 'niwed sylweddol' a 'pherygl uniongyrchol'.	25

AELODAU'R PWYLLGOR



Helen Mary Jones
Cadeirydd
Llanelli
Plaid Cymru



Eleanor Burnham
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



Angela Burns
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



Christine Chapman
Cwm Cynon
Llafur



Lynne Neagle
Tor-faen
Llafur

RHAGARWEINIAD Y CADEIRYDD



Ers cyhoeddi adroddiad Waterhouse, *Ar Goll mewn Gofal*, yn 2000, gwnaed amryw helaeth o argymhellion ynglŷn â gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc. Aeth cryn amser heibio cyn cyflawni'r rhain.

Felly, croesewir brwdfrydedd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno model newydd ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Cydnabu'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc (PPPhI) yr angen brys i wella strwythurau comisiynu, a chytunwyd yn unfrydol i graffu ar gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru o fewn amserlen gyfyng. Cydnabu'r pwyllgor bod angen strwythurau ar unwaith ond os ceir trafferthion gyda'r strwythurau hynny, mae angen eu cywiro yn awr yn hytrach nag yn nes ymlaen.

Mae ymchwiliad i'r broses o gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth yn arbennig o briodol i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i ymgymryd ag ef fel ei ymchwiliad cyntaf.

Yn aml, ni fyddwn yn ystyried barn plant a phobl ifanc yn ddigon difrifol, hyd yn oed os gall rhai o'r bobl ifanc hynny sydd dros 16 mlwydd oed briodi, ymuno â'r lluoedd arfog, a thalu trethi. Mae'n ddyletswydd arnom ni fel gwleidyddion i gynrychioli'r rheini na allant leisio'u barn ac mae angen sicrhau bod ein plant yn cael y cyfle i leisio'u barn a chael eu clywed. Yn rhinwedd hynny y sefydlwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ac yn rhinwedd hynny y mae angen gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar blant a phobl ifanc.

Yn ystod yr ymchwiliad hwn, yr ydym wedi clywed tystiolaeth gan ystod eang o sefydliadau. Gan y bobl ifanc eu hunain y cafwyd rhai o'r lleisiau mwyaf pwerus. Maent wedi dweud wrthym bod eiriolwyr yn eu galluogi i gyflwyno'u barn a'u teimladau, ac yn sicrhau bod y rheini'n cael eu hystyried pan wneir penderfyniadau ynglŷn â'u bywydau. Maent wedi dangos inni bod angen i eiriolwyr fedru gwranddo, deall, mynnu bod eu lleisiau'n cael eu clywed, dal ati a pheri i bethau ddigwydd. Mae rhai hefyd wedi disgrifio achosion o dorri cyfrinachedd ac ymddiriedaeth sydd wedi peri niwed sylfaenol i'w perthynas ag eiriolwyr, a difetha'u hymddiriedaeth yn 'y system' i'w helpu. Yn anad dim, yr hyn y maent wedi'i ddweud wrthym yw eu bod wir angen gallu credu bod eu heiriolwr 'ar eu hochr hwy' ac yn gwbl annibynnol o unrhyw sefydliad arall yn eu bywydau.

Bydd rhoi'r strwythurau gorau posibl ar waith i alluogi eiriolaeth annibynnol yn caniatáu i blant gael eu clywed.

Helen Mary Jones

Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Cafwyd nifer o adroddiadau ac ymchwiliadau, yn dyddio'n ôl i1997, yn galw am sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed. Yn ei ymchwiliad i achosion o gam-drin plant mewn gofal cyhoeddus, sef *People Like Us* (1997), daeth Syr William Utting i'r casgliad bod angen gwasanaeth eirioli annibynnol i ddiolgeu plant sy'n derbyn gofal, ac i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed mewn system sydd, fel arall, yn gaeedig. Roedd eiriolaeth yn ganolog i adroddiad Waterhouse hefyd, sef *Ar Goll mewn Gofal* (2000), a argymhellodd y dylai gwasanaeth eirioli fod ar gael i blant sy'n gwneud cwyn. Cafwyd yr un argymhelliad yn adroddiad Carlile, sef *Peth Rhy Ddifrifol* (2002) ynghylch mesurau i ddiogelu plant yn GIG Cymru, a gwranddo ar lais y plentyn oedd un o brif themâu adroddiad yr Arglwydd Laming i farwolaeth Victoria Climbié, *Keeping Children Safe* (2003).

Ychwanegodd Comisiynydd Plant Cymru ei lais yntau at y drafodaeth, gyda'r adroddiad *Datgan Pryderon* (2003), a oedd yn adolygu'r trefniadau ar gyfer eiriolaeth gan argymhell ffyrdd o wella trefn gwyno a gwasanaethau eirioli gwasanaethau cymdeithasol yn genedlaethol ac yn lleol. Mae pryder ynghylch gwasanaethau eirioli yn thema sydd wedi codi dro ar ôl tro yn Ymchwiliadau Blynyddol dilynol y Comisiynydd Plant.

Fel ymateb i argymhellion adroddiadau Utting, Waterhouse a Carlile, cafwyd ymrwymiad hirsefydlog gan Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc.

Ym mis March 2007, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghoriad ynghylch *Model gwasanaeth newydd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc*. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, cyflwynwyd model ar gyfer gwasanaethau eirioli a oedd wedi'i seilio ar yr egwyddor o gomisiynu rhanbarthol drwy Bartneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc (PPPHI).

Yn yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, roedd amrywiaeth barn sylweddol ynglŷn â'r ffordd orau o gomisiynu gwasanaethau eirioli. Fodd bynnag, er mwyn medru trafod y syniadau hyn yn agored, cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol i graffu ar gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

O gofio mai bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw cyflwyno newidiadau i wella gwasanaethau eirioli i blant cyn gynted â phosibl, cytunodd y Pwyllgor i geisio cwblhau ei adroddiad erbyn y Pasg 2008.

Wrth gynnal ei ymchwiliad, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan amrywiaeth o dystion, gan gynnwys y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, cyrff a sefydliadau cynrychiadol a chafwyd tystiolaeth gan bobl ifanc yn uniongyrchol hefyd, gydag un person ifanc yn bresennol mewn cyfarfod Pwyllgor. Bu aelodau'r Pwyllgor hefyd yn holi grwpiau o bobl ifanc yn ystod ymweliadau rapporteur.

Cylch Gorchwyl

Dyma gylch gorchwyl yr ymchwiliad:

- craffu ar gynigon Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu gwasanaethau eirioli i blant Cymru ar ôl ymgynghori ynghylch model gwasanaeth newydd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc; a
- gwneud argymhellion ynglŷn â'r camau i'w cymryd i wella gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc Cymru.

Diffinio Eiriolaeth

Dyma sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diffinio eiriolaeth yn y *Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant*, (2003):

“Mae eiriolaeth yn ymwneud â siarad dros blant a phobl ifanc. Mae eiriolaeth yn ymwneud â galluogi plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu hawliau yn cael eu parchu a bod eu barn a'u dymuniadau'n cael eu clywed bob amser. Mae eiriolaeth yn ymwneud â chyflwyno barn, dymuniadau ac anghenion plant a phobl ifanc i lunwyr penderfyniadau, a'u helpu i fynd drwy'r system.”

Y FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL

Cyfrifoldeb presennol awdurdodau lleol

Mae eiriolaeth yn fater trawsbynciol sy'n effeithio ar gyfrifoldebau sydd wedi'u datganoli, fel addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ynghyd â materion nad ydynt wedi'u datganoli fel mewnfudo a chyfiawnder.

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae gan yr awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â chyfrifoldebau gwasanaethau cyhoeddus, ddyletswyddau penodol, o dan adran 26A o *Ddeddf Plant 1989*, i 'wneud trefniadau' i roi cymorth i:

- (1) bobl sy'n cyflwyno, neu sy'n bwriadu cyflwyno sylwadau o dan adran 24D o *Ddeddf Plant 1989*;
- (2) plant sy'n cyflwyno, neu sy'n bwriadu cyflwyno sylwadau o dan adran 26(3) o *Ddeddf Plant 1989*;

O dan y fframwaith cyfreithiol presennol, rhaid i awdurdod lleol 'wneud trefniadau' i roi cymorth, gan gynnwys cymorth ar ffurf cynrychiolaeth/eiriolaeth. Rhaid i'r cymorth hwn fod ar gael i blant sy'n ymadael â gofal, plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cyflwyno neu'n bwriadu cyflwyno sylwadau o dan adran 24D a 26(3) o *Ddeddf Plant 1989*.

Mae geiriad y ddeddf yn golygu y gall awdurdod lleol ddarparu gwasanaeth eirioli ei hun, neu gontractio trydydd parti i'w ddarparu. Gall awdurdod lleol gomisiynu gwasanaethau eirioli, gan gynnwys asiantaethau gwirfoddol, cyn belled â'u bod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant, a gyhoeddwyd yn 2003.

Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i ddileu'r cyfrifoldeb sydd gan awdurdodau lleol Cymru i 'wneud trefniadau' i ddarparu gwasanaethau eirioli.

Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc

Un o ofynion statudol *Deddf Plant 2004* (fel y'i diwygiwyd) yw bod yn rhaid sefydlu Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, sy'n cynnwys awdurdod lleol a phartneriaid. Cynlluniwyd y Partneriaethau hyn i ddwyn ynghyd yr holl bartneriaid lleol sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Y Partneriaethau sy'n gyfrifol am wasanaethau i bob plentyn a pherson ifanc o'r cyfnod cyn eu geni nes y byddant yn 18 oed, yn ogystal â'r rheini sy'n rhan o'r gwasanaethau cymorth ieuencid, neu'n derbyn y gwasanaethau hynny, nes y byddant yn 25 oed a phobl ifanc hyd at 21 neu 25 oed sy'n ymadael â gofal, os ydynt yn dal yn dilyn cyrsiau addysg neu hyfforddiant.

Mae *Deddf Plant 2004* (fel y'i diwygiwyd) yn disgrifio'r cyrff perthnasol a fydd yn gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol fel a ganlyn:

- awdurdod yr heddlu a phrif swyddog yr heddlu yn yr ardal;
- y bwrdd prawf lleol;

- y tîm troseddau ieuenctid;
- y Bwrdd Iechyd Lleol;
- ymddiriedolaethau'r GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r graddau y mae'n cyflawni'i swyddogaethau o dan Rhan 2 o *Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000*.

Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau*, a gyhoeddwyd yn 2006 hefyd yn argymhell bod y Partneriaethau'n cynnwys:

- cynrychiolydd o'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant;
- cynrychiolwyr o'r ysgolion lleol;
- cynrychiolwyr o gyrff/grwpiau cyfrwng Cymraeg;
- cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Tân ac Achub;
- cynrychiolydd o gyrff gwirfoddol perthnasol, Cyfarwyddwr Cyngor Gwirfoddol y Sir fel arfer.

Trefniadau caffael yn y DU

Yn y DU, mae *Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006* yn gweithredu cyfarwydddebau caffael perthnasol yr UE. O dan y Rheoliadau hyn, byddai contract i gomisiynu 'gwasanaethau eirioli,' yn cael ei ddsbarthu fel 'contract gwasanaethau Rhan B.'

Dim ond rhai Rheoliadau arbennig sy'n gymwys i gontractau sydd wedi'u dynodi'n "gontractau gwasanaeth Rhan B": er enghraifft, dim ond dyfarniad y contract y mae angen ei hysbysebu yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

Mae trothwy o £144,371 (€211,000) ar gyfer holl 'gontractau gwasanaeth Rhan B' a dim ond os yw gwerth y contract yn uwch na'r swm hwn y mae'r Rheoliadau'n gymwys.

Mae trothwy o £144,371 (€211,000) ar werth contractau gwasanaeth Rhan A a Rhan B gan awdurdodau lleol.

Ni ddylai'r broses dendro ar gyfer contractau Rhan B gymryd dim mwy o amser na hysbysebu'n lleol drwy broses dendro arferol yr awdurdod sy'n contractio.

Y PRIF FATERION A'R ARGYMHELLION

Wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, cymerodd Aelodau'r Pwyllgor dystiolaeth gan amrywiaeth eang o dystion gan gynnwys y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, cyrff sy'n comisiynu ac yn darparu gwasanaethau eirioli, cyrff ymbarél, cyrff sy'n cynrychioli pobl ifanc a chafodd dystiolaeth hefyd gan bobl ifanc yn uniongyrchol.

Cafwyd tystiolaeth mewn nifer o ffyrdd: ymatebion ysgrifenedig ar ôl galw am dystiolaeth, tystiolaeth lafar mewn cyfarfodydd Pwyllgor, a thrwy gyfrwng ymweliadau rapporteur â grwpiau o bobl ifanc. Mae manylion y dystiolaeth a gafwyd yn Atodiad 2.

Nododd yr Aelodau hefyd ddatganiad a wnaed gan Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, a gyflwynwyd gerbron y Cyfarfod Llawn ar 11 Rhagfyr 2007.

Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith y tystion fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dangos ymrwymiad i geisio gwella gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc. Clywodd Aelodau'r Pwyllgor, fodd bynnag, fod cryn dipyn o bryder ynghylch y model gwasanaeth newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn ystod yr ymweliadau rapporteur, dywedodd pobl ifanc hefyd y byddai'n rhaid mynd i'r afael â phroblemau annisgwyl a fyddai'n anochel yn codi waeth pa fodel o gomisiynu gwasanaethau eirioli fyddai'n cael ei fabwysiadu.

Daeth pedair thema allweddol i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad:

- Yr angen i gael gwasanaethau eirioli annibynnol;
- Yr angen i gael eiriolwyr medrus;
- Yr angen i wasanaethau eirioli fod yn hygyrch;
- Yr angen i sicrhau parhad gwasanaeth.

1. Yr Angen i gael Gwasanaethau Eirioli Annibynnol

Roedd y tystion yn cytuno'n gyffredinol fod angen i wasanaethau eirioli fod yn annibynnol, a bod yn rhaid i blant a phobl ifanc fedru ymddiried mewn system sy'n adlewyrchu eu hanghenion.

Fodd bynnag, cyflwynwyd amrywiaeth eang o sylwadau gerbron Aelodau'r Pwyllgor am yr hyn yr oedd annibyniaeth yn ei olygu ac am y trefniadau comisiynu yr oedd eu hangen i sicrhau annibyniaeth.

Yn fras, gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Roedd rhai tystion o blaid y model gwasanaeth a gynigiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sef bod y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn comisiynu gwasanaethau'n lleol, gyda rhai awgrymiadau ar gyfer cryfhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd;
- Roedd rhai'n cefnogi economi gymysg drwy greu trefniant comisiynu rhanbarthol/lleol ar gyfer eiriolaeth gyffredinol ei natur a threfniant comisiynu cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth arbenigol i grwpiau penodol sy'n agored i niwed;
- Roedd rhai'n anghytuno â'r model comisiynu rhanbarthol ac yn cynnig y dylid cael trefniant ar gyfer comisiynu gwasanaethau eirioli yn genedlaethol.

Ystyriwyd bod gan bob trefniant comisiynu rai cryfderau penodol.

Y Model a Gynigiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Awgrymodd y rheini a oedd o blaid y model a gynigiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y gallai gwasanaethau a gomisiynwyd drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc fod â'r lefel briodol o annibyniaeth cyn belled ag y bo systemau craffu a monitro priodol wedi'u sefydlu a bod y rheini a fyddai'n darparu'r gwasanaethau eirioli'n gweithredu'n broffesiynol.

Dywedodd **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol** fod y rheini a awgrymai nad oedd gwasanaethau a gomisiynwyd gan lywodraeth leol yn annibynnol, yn tanseilio swyddogaeth a phroffesiynoldeb y sector. Roedd **Second Voice Wreccsam** a **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)** yn cytuno â'r farn hon. Yn yr un modd, dadleuai **Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)**:

“Rydym yn darparu gwasanaeth annibynnol, nad yw'n atebol i awdurdod o unrhyw fath.”

Cyflwynwyd dadleuon hefyd o blaid y math yma o gomisiynu oherwydd ei fod yn creu dialog hanfodol ag awdurdodau lleol, ac yn cynnig ffyrdd o wella gwasanaethau a chael hyd i atebion sydyn i'r problemau lleol roedd plant a

“Cam yn ôl fyddai dychwelyd i'r dyddiau pan oedd y berthynas rhwng awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth yn anodd ac yn llawn gwrthdaro.”

Cynigiodd CLILC y byddai comisiynu rhwng PPPHl yn galluogi gwasanaethau eirioli i fod yn berthnasol i anghenion plant a phobl ifanc lleol. Dadleuai **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru** ei bod yn hanfodol bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n lleol, ar sail anghenion lleol a gwybodaeth gan y plant a'r bobl ifanc lleol a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau. Pwysleisiodd **NCH Cymru** hefyd yr angen i sicrhau bod gwybodaeth leol yn rhan hanfodol o'r broses gomisiynu.

Trefniant 'Economi Gymysg'

Roedd nifer o dystion, fodd bynnag, o blaid trefniant 'economi gymysg' ac roeddynt yn argymhell comisiynu'r rhan fwyaf o wasanaethau eirioli drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, ond gan gomisiynu gwasanaethau mwy arbenigol, fel eirioli ar ran plant sy'n ceisio lloches, ar lefel genedlaethol. Dyma oedd safbwynt **Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Blaenau Gwent, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, ac NDCS Cymru**, a awgrymodd:

"O ran anghenion llai cyffredin, lle na fyddai cynifer o ddarparwyr arbenigol ar gael efallai, mae'n bosibl y byddai system gomisiynu genedlaethol yn fwy priodol"

Uned Eirioli Genedlaethol

Y brif ddadl o blaid cael uned genedlaethol i gomisiynu gwasanaethau lleol, oedd y byddai hynny'n caniatáu i wasanaethau eirioli gael eu hariannu'n annibynnol.

Sylw a gafwyd gan nifer o dystion oedd y byddai darparwyr eiriolaeth a gomisiynwyd drwy Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn dal yn cael eu hariannu gan y rheini y byddai'n rhaid iddynt, o bosibl, eu herio. Dyma ddadl **Voices from Care**:

"Dim ond drwy gael gwasanaeth eirioli sy'n wirioneddol annibynnol ar awdurdodau lleol y bydd modd gwella'r canlyniadau gwarthus presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal."

Yn yr un modd, yn ôl **Comisiynydd Plant Cymru**, er bod comisiynu ar y cyd a chomisiynu drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn well na chael awdurdodau lleol yn comisiynu'n unigol, ni fyddai hynny'n sicrhau annibyniaeth. Awgrymodd y Comisiynydd nad oedd modd mesur annibyniaeth: roedd gwasanaeth naill ai'n annibynnol ynteu ddim. Roedd **Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr, Ymddiriolaeth GIG Bro Morgannwg a'r Grŵp Hollbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal, a Phlant yng Nghymru** i gyd yn amau a fyddai comisiynu drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn sicrhau annibyniaeth. Yn wir, yn ei

dystiolaeth lafar, nododd yr Athro Andrew Pithouse, o **Brifysgol Caerdydd**, nad oedd y broblem hon yn unigryw i Gymru:

“Mae problemau a pheryglon bob amser ynghlwm wrth ymgorffori eiriolaeth yn y system, oherwydd gallai wedyn fod yn aneffeithiol ac yn rhan o'r system.”

angen iddynt, o bosibl, eu nerio.

At hyn, awgrymodd nifer o dystion y byddai uned genedlaethol â chyfrifoldeb dros gomisiynu, yn cynnig mwy o 'sefydlogrwydd' na chomisiynu drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Yn ôl **Voices from Care a Comisiynydd Plant Cymru**, gellid terfynu contractau a gomisiynwyd gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc oherwydd trafferthion ariannol awdurdodau lleol, gan ei gwneud hi'n bosibl y byddai gwasanaethau eirioli'n dod i ben ar fyr rybudd.

Hefyd, roedd diffyg profiad llawer o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc ym maes comisiynu'n peri pryder i nifer o dystion, gyda **Comisiynydd Plant Cymru** yn dadlau fel a ganlyn:

“Mae eiriolaeth yn wasanaeth rhy bwysig ym maes diogelu plant i fod yn destun arbrawf ar gyfer y trefniadau newydd”

Roedd pryderon tebyg gan y **Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, SNAP Cymru, a'r Grŵp Holl Bleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal**, a oedd yn teimlo nad oedd gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc brofiad o gomisiynu, ac eithrio yng nghyswllt grant Cymorth.

Awgrymodd llawer o dystion, gan gynnwys **Voices from Care a Phlant yng Nghymru**, y byddai uned eirioli genedlaethol yn sicrhau gwasanaeth mwy cyson ar hyd a lled Cymru, a chytundebau lefel gwasanaeth a fyddai'n debyg i bawb.

Yn y cyfarfodydd rapporteur ym Methesda, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd, Abertawe a Hwlfordd, pwysleisiodd yr holl bobl ifanc fod angen i'r gwasanaethau eirioli fod yn annibynnol, gan ddadlau na ddylai corff a allai fod yn creu problem i bobl ifanc dalu am eiriolwr. Nid oedd hwn yn fater a oedd yn peri pryder i bobl ifanc Merthyr Tudful, fodd bynnag.

Ystyriaethau'r Aelodau

Roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod y dadleuon a gynigiwyd o blaid cael uned eirioli genedlaethol, a fyddai'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau lleol a rhai gwasanaethau cenedlaethol ar gyfer grwpiau llai cyffredin, fel plant sy'n ceisio lloches, yn gryfach na'r dadleuon o blaid modelau eraill.

O gofio casgliadau Adroddiad Waterhouse 2000, *Ar Goll mewn Gofal*, roedd yr Aelodau'n credu y dylai annibyniaeth fod yn elfen hanfodol o unrhyw wasanaeth eirioli. Pwysleisiodd yr Aelodau nad oedd eu hargymhellion yn feirniadaeth ar y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc nac ar broffesiynoldeb y rheini a oedd yn darparu ac yn comisiynu gwasanaethau eirioli.

Yn wir, canmolodd Aelodau'r Pwyllgor waith y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, gan eu bod yn creu cydweithrediad rhwng meysydd iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a grwpiau yn y sector gwirfoddol. Ystyriwyd bod yr agwedd gydgysylltiedig hon yn gam arwyddocaol tuag ar gynnig gwasanaethau a allai ymateb yn briodol i anghenion plant a pobl ifanc.

Fodd bynnag, roedd yr Aelodau o'r farn fod gwrthdaro buddiannau'n rhan gynhenid o unrhyw system lle mae darparwyr eiriolaeth yn cael eu talu gan yr un awdurdodau y mae'n gyfrifoldeb arnynt eu herio, a'r un awdurdodau sy'n adnewyddu neu'n terfynu eu contractau.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'r gwrthdaro hwn yn cael ei liniaru gan broffesiynoldeb y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a'r gwasanaethau eirioli. Yn wir, yn ystod y cyfarfodydd rapporteur, er i'r Aelodau glywed am y profiadau gwael a gafodd rhai pobl ifanc a ddefnyddiodd wasanaeth eirioli, clywsant hefyd am brofiadau da ac am broffesiynoldeb darparwyr eiriolaeth.

Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n credu bod y ffaith fod posibilrwydd i'r gwrthdaro buddiannau hwn godi wrth gomisiynu drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, yn ddigon o reswm dros ystyried sefydlu uned gomisiynu genedlaethol.

Roedd yr Aelodau'n credu hefyd y gallai gwrthdaro buddiannau godi er gwaethaf bwriadau da pawb. Nododd yr Aelodau mai dyletswydd i sicrhau buddiannau a lles plant sydd gan y gwasanaethau cymdeithasol, ond mai dyletswydd i siarad ar ran plant sydd gan y gwasanaethau eirioli, hyd yn oed os gallai dymuniadau'r plant fod yn niweidiol i'w lles.

Nododd yr Aelodau hefyd fod y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn gymharol newydd ac amhrofiadol, a bod eu diwylliant a'u man cychwyn yn wahanol, tra bo enghreifftiau o unedau cenedlaethol sy'n comisiynu darparwyr lleol ar gael eisoes, fel Llygad Busnes.

Fodd bynnag, roedd yr Aelodau hefyd yn teimlo y byddai gwybodaeth leol aelodau'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn amhrisiadwy mewn system lle byddai uned eirioli genedlaethol yn comisiynu gwasanaethau eirioli lleol. Credai'r Aelodau y byddai angen i'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc weithio mewn partneriaeth gydag uned eirioli genedlaethol. Yn wir, yn y cyfarfod rapporteur yn Hwlfordd, credai pobl ifanc y gallai'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc fwydo gwybodaeth gyffredinol i'r uned eirioli genedlaethol, a fyddai'n eu helpu wrth iddynt gyda'u penderfyniadau, neu gallai'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc argymhell darparwr eiriolaeth i'r uned eirioli genedlaethol.

Trafododd yr Aelodau hefyd y gallai uned eirioli genedlaethol fod yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau eirioli arbenigol, ar gyfer grwpiau llai cyffredin, fel plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches, yn ogystal â gwasanaethau eirioli cyffredinol.


Trafododd yr Aelodau hefyd sylwadau'r **Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol** a ddywedodd y dylai gwasanaeth comisiynu cenedlaethol fod yn seiliedig ar dendr agored, o dan reolau comisiynu Cyfnodolyn yr Undeb Ewropeaidd. Credai'r Aelodau mai dyna fyddai'n digwydd pa bai un darparwr eiriolaeth yn cael ei gomisiynu i fod yn gyfrifol am Gymru gyfan. Fodd bynnag, ni fyddai uned gomisiynu genedlaethol fel arfer yn gorfod hysbysebu yng Nghyfnodolyn yr Undeb Ewropeaidd pan fyddai am roi contract i ddarparwr eiriolaeth ar gyfer ardal leol. At hyn, pe bai'n rhaid rhoi hysbyseb yng Nghyfnodolyn yr Undeb Ewropeaidd, nododd y Pwyllgor na fyddai'r broses yr oedd yn rhaid ei dilyn yn cymryd dim mwy o amser na'r broses dendro arferol.

Nododd yr Aelodau hefyd fod y **Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau** wedi dweud, yn y cyfarfod llawn ar 11 Rhagfyr 2007, y byddai angen is-ddeddfwriaeth i ddileu dyletswyddau awdurdodau lleol a sefydlu uned gomisiynu genedlaethol. Ar ôl cael cyngor cyfreithiol, credai'r Aelodau y byddai angen is-ddeddfwriaeth i ddileu cyfrifoldebau awdurdodau lleol i 'wneud trefniadau' ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli. Nododd yr Aelodau hefyd y gellid gwneud hyn, o bosibl, drwy'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed, y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi bod yn ei drafod.

Nododd yr Aelodau y gellid gweithredu'r egwyddor o sefydlu uned eirioli genedlaethol i fod yn gyfrifol am gomisiynu darparwyr eiriolaeth lleol, drwy nifer o wahanol ddulliau. Dyma ddywedodd **Comisiynydd Plant Cymru**:

"P'un a yw'r uned eirioli i'w sefydlu yn y Cynulliad neu ar ffurf rhyw fath o gorff oddi allan i'r Cynulliad a gaiff ei hariannu gan y Cynulliad, dyna'r ddadl y dylid ei chynnal am y trefniadau ymarferol."

Mae un model posibl ar gyfer comisiynu drwy uned eirioli genedlaethol, a nodwyd gan y Pwyllgor, wedi'i gyflwyno trosodd. Ond roedd yr Aelodau, fodd bynnag, yn awyddus i bwysleisio y dylid ymgynghori â phobl ifanc, darparwyr eiriolaeth, llywodraeth leol a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc wrth ddatblygu'r trefniadau ymarferol ar gyfer comisiynu gan wneud hynny'n unol ag egwyddorion uned gomisiynu genedlaethol.



Argymhelliad 1: *Yn dilyn proses ymgynghori briodol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu uned eirioli genedlaethol a gaiff ei hariannu'n ganolog, gyda chyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau eirioli annibynnol mewn ardaloedd lleol. Ni fyddai'r uned yn comisiynu un gwasanaeth eirioli unigol i ddarparu ar gyfer yr holl ardaloedd lleol ond byddai, yn hytrach, yn adeiladu ar y trefniadau presennol. Wrth gomisiynu gwasanaethau mewn ardaloedd lleol, byddai'r uned eirioli'n ystyried strwythurau rhanbarthol a lleol, daearyddiaeth a gwaith y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Byddai'r uned hefyd yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau arbenigol, yn genedlaethol, ar gyfer plant a phobl ifanc i ddelio â materion mwy arbenigol, fel mewnfudo ac iechyd meddwl.*

Argymhelliad 2: *Dylai uned eirioli Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o benderfynu i ba ddarparwyr eiriolaeth y dylid rhoi contract, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Byddai'r argymhelliad hwn yn gymwys pan fyddai'r uned yn comisiynu gwasanaethau eirioli lleol, cyffredinol yn ogystal â gwasanaethau arbenigol cenedlaethol.*

Allwedd i'r Model

Llinellau duon - cyfrifoldeb
Llinellau coch – arolygu
Llinellau gwyrdd - craffu
Llinellau pinc - rhannu gwybodaeth
Llinellau glas - corff trosfwaol

2. Yr Angen i gael Eiriolwyr Medrus

Dywedodd llawer o dystion, gan gynnwys **Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) a Phlant yng Nghymru** fod angen i eiriolaeth fod yn broffesiwn cydnabyddedig. Lleisiwyd y pryder hwn yn ystod yr ymweliad rapporteur â Bethesda.

Cymeradwyodd **Plant yng Nghymru** hefyd y syniad o achredu hyfforddiant y cyfeiriodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ato yn ei hymgyngoriad ar fodel gwasanaeth newydd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc. Roedd **Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Blaenau Gwent** hefyd yn credu bod hyfforddiant yn bwysig ac yn awgrymu y gallai uned eirioli genedlaethol ddarparu hyfforddiant i eiriolwyr mewn portffolio o sgiliau cydnabyddedig, yn genedlaethol, er mwyn iddynt ennill y cymhwyster hwn. Roedd pobl ifanc Bethesda hefyd yn cymeradwyo hyfforddiant ar gyfer eiriolwyr.

Awgrymodd **Voices from Care** y dylai eiriolwyr feddu ar sgiliau gwranddo a chwrsela, ond nodwyd hefyd na ddylai fod yn hanfodol i eiriolwyr fod â gradd mewn gwaith cymdeithasol neu gymwysterau academaidd, gan y gallai hynny gyfyngu ar nifer yr eiriolwyr posibl.

Yn wir, yn ystod y cyfarfod rapporteur yn Hwlfordd, dywedodd y bobl ifanc bod gwaith eirioli'n wahanol i broffesiynau eraill, fel gwaith cymdeithasol, lle'r oedd angen i bobl broffesiynol gadw pellter emosiynol oddi wrth y rheini roeddynt yn gweithio gyda nhw, a bod angen i eiriolwyr fod â chysylltiad emosiynol â'u cleientiaid a dilyn achosion i'r pen. Cafwyd sylwadau tebyg yn y cyfarfod rapporteur ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle credai'r bobl ifanc y dylai eiriolwyr ddal ati a dilyn pethau i'r pen.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn na ddylai fod yn angenrheidiol i eiriolwyr fod inni â chymwysterau penodol gan y byddai hynny'n rhwystro pobl fedrus rhag gwneud y gwaith, gan gynnwys pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau eirioli yn y gorffennol. Roeddynt yn credu, fodd bynnag, fod angen arolygu gwasanaethau eirioli i sicrhau bod gan eiriolwyr amrywiaeth o sgiliau priodol. I ategu hyn, roeddynt yn credu y dylid datblygu hyfforddiant i eiriolwyr presennol.

Yn ogystal â hyn, nododd Aelodau'r Pwyllgor bwysigrwydd eiriolwyr lleyg, sef pobl roedd pobl ifanc yn ymddiried ynddynt ac a fyddai'n gallu lleisio'u pryderon. Yn ystod y cyfarfod rapporteur ym Mhen-y-bont ar Ogwr, cytunwyd y dylai unrhyw gynllun cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth eirioli gydnabod eiriolwyr cymheiriaid ac eiriolwyr lleyg. O ganlyniad, penderfynodd y Pwyllgor y dylid darparu hyfforddiant i eiriolwyr lleyg hefyd.

Hefyd, nododd yr Aelodau sylwadau **Voices from Care** sef bod eiriolaeth cymheiriaid a hunaneiriolaeth yn elfennau hanfodol mewn strategaeth eirioli. Roedd yr Aelodau'n credu y gallai darparwyr eiriolaeth lleol fod â rhan bwysig

yn y gwaith o feithrin hyder a sgiliau plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'u gwasanaethau, i'w galluogi i eirioli ar eu rhan eu hunain yn y dyfodol.

Argymhelliad 3: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr uned eirioli genedlaethol yn trefnu rhaglen hyfforddi i eiriolwyr, mewn portffolio o sgiliau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol (gan gynnwys, ymhlith sgiliau eraill, gwrando, deall, meithrin perthynas ag eraill a chwrsela). Dylai hyfforddwyr gynnwys y rheini sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth eirioli yn y gorffennol a phlant a phobl ifanc.*

